YSGOL UWCHRADD BODEDERN

Bro Alaw, Bodedern, Ynys Môn, LL65 3SU
01407 741000
pennaeth@bodedern.ynysmon.sch.uk / swyddfa@bodedern.ynysmon.sch.uk

Pennaeth : Mr Paul G. S. Matthews-Jones

Mawrth 8fed, 2021

Annwyl Riant/Warcheidwad/Ddysgwr,

Yn dilyn cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru gallwn gadarnhau y bydd disgyblion Blynyddoedd 7, 8 a 9 yn dychwelyd yn llawn amser i'r ysgol ar ôl gwyliau'r Pasg. Fodd bynnag, fe fyddwn yn cynnig cyfle i'r disgyblion yma ddod i'r ysgol am un diwrnod cyn y gwyliau er mwyn cael ail ymgyfarwyddo gyda'r trefniadau dydd i ddydd a pharatoi ar gyfer dychwelyd yn llawn amser ar Ebrill y 12fed.

Byddwn yn gwahodd y disgyblion i'r ysgol yn unol â'r amserlen isod:

Blwyddyn 7	Dydd Mercher, Mawrth 24ain Dydd Iau, Mawrth 25ain Dydd Gwener, Mawrth 26ain
Blwyddyn 8	Dydd Iau, Mawrth 25ain Dydd Gwener, Mawrth 26ain
Blwyddyn 9	Dydd Gwener, Mawrth 26ain

Y tu allan i'r dyddiau hyn fe fydd gwersi ar-lein yn parhau yr un fath ag arfer ond fe fyddwn yn cynllunio rhai dyddiau di-sgrin. Yn ystod y cyfnod o'r 15fed ymlaen fe fydd blynyddoedd 11, 12 ac 13 yn yr ysgol yn llawn amser ac fe fydd Blwyddyn 10 i mewn o'r 22ain. Golyga hyn y bydd yr ysgol yn darparu addysg i'n disgyblion mewn tair ffordd: gwersi yn yr ysgol, gwersi ar lein ynghyd â gwersi yn y Ganolfan Ofal. O ganlyniad, bydd angen newid rhywfaint ar y ddarpariaeth ddyddiol y gallwn ei gynnig o'i gymharu â'r cyfnod diweddar.

Er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch pawb, bydd yr amodau yn yr ysgol yn debyg iawn i'r hyn a welwyd cyn y Nadolig. Yn ychwanegol at hyn mae'r canllawiau cenedlaethol yn nodi y dylai masgiau gael eu gwisgo yn y dosbarth ble na ellir cadw at bellter cymdeithasol. O ystyried yr ymchwil diweddar sy'n dangos fod gwisgo masgiau yn cyfrannu i leihau ymlediad y firws, credwn yn gryf mai da o beth felly yw gwisgo masgiau yn y dosbarth. Rydym felly yn annog yn gryf fod pawb yn gwisgo masg ble mae'n ymarferol bosibl ymhob man yn yr ysgol ac eithrio y tu allan i'r adeilad. Mae gwisgo masgiau yn un o sawl mesur lleihau risg ymlediad firws Covid 19, ynghyd â'r mesurau hanfodol o bellter cymdeithasol, golchi dwylo cyson ac awyru. Mae disgwyl i bawb wisgo gorchudd wyneb ar y bysiau fel ag yr oeddynt cyn y Nadolig.

Yn ystod y cyfnod clo , rydym wedi sicrhau fod mwy o ffenestri o amgylch yr adeilad yn gallu agor, ac rydym wedi archebu teclynnau i fesur lefelau CO2 yn yr ystafelloedd. Mae'r rhain yn rhoi arweiniad da ynglŷn â phryd sydd angen agor ffenest er mwyn gwella lefel awyru. Eto gyda'r tywydd yn gwella bydd hyn yn gymorth mawr.

Rydym mor falch o gael disgyblion yn ôl ym Modedern, a braf fydd gweld yr ysgol yn llawn eto. Ac mae hyn yn bwysicach na rheolau gwisg ysgol ar hyn o bryd. Rydym yn llwyr sylweddoli nad oes siop wedi bod ar agor ac un tymor yn unig sydd yn weddill. Felly yn naturiol rydym am i bawb wisgo gwisg ysgol, ond peidiwch â phoeni os nad ydi hi'n berffaith.

Ni fydd ceginau ysgolion ar draws Ynys Môn yn darparu cinio yn ystod y dychweliad graddol yma, ond fydd y ddarpariaeth arferol yn ei lle o ddydd Llun , Ebrill 12fed ymlaen. Bydd disgwyl felly i bawb ddod â phecyn bwyd i'r ysgol a bydd taliadau uniongyrchol yn parhau ar gyfer plant sy'n gymwys i gael prydau di-dâl. Gallwn hefyd gadarnhau y bydd y bysiau ysgol yn rhedeg yr un fath ag arfer gan eich atgoffa eto bod angen gwisgo masg ar bob taith.

Bydd y Ganolfan Ofal ar gyfer plant gweithwyr allweddol yn parhau.

YSGOL UWCHRADD BODEDERN

Bro Alaw, Bodedern, Ynys Môn, LL65 3SU
01407 741000
pennaeth@bodedern.ynysmon.sch.uk / swyddfa@bodedern.ynysmon.sch.uk

Pennaeth : Mr Paul G. S. Matthews-Jones

Rydym felly wrth ein bodd fod plant yn cael dychwelyd i'r ysgol, ond mae cyfrifoldeb arnom i wneud hynny'n ddiogel ac yn unol â chanllawiau a threfniadau ac amserlen Llywodraeth Cymru, sydd yn wahanol i drefniadau mewn mannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Hyderaf y bydd yr addasiadau uchod nid yn unig yn ychwanegu at y dyhead i ddychwelyd ond hefyd yn codi eich hyder fod mesurau ychwanegol yn eu lle i wneud hynny mor ddiogel â phosibl.

Mae'r holl staff yn edrych ymlaen yn fawr iawn at gael croesawu'r disgyblion yn ôl gan anelu at ryw fath o normalrwydd er gwaetha'r cyfyngiadau fydd yn parhau. Gwahoddir chi i gysylltu â ni dwy'r dulliau arferol os oes gennych unrhyw bryderon neu ymholiadau pellach.

Yn gywir

Paul G S Matthews-Jones
Pennaeth

YSGOL UWCHRADD BODEDERN

Bro Alaw, Bodedern, Ynys Môn, LL65 3SU
01407 741000
pennaeth@bodedern.ynysmon.sch.uk / swyddfa@bodedern.ynysmon.sch.uk

Pennaeth : Mr Paul G. S. Matthews-Jones

8th March 2021

Dear Parent/Guardian/Learner,

Following the recent announcement from the Welsh Government, we can confirm that Years 7, 8 and 9 pupils will return to school full time following the Easter holidays. We will also offer these pupils the opportunity to come to school before the holidays in order to refamiliarise themselves with day to day procedures and prepare for their full return on 12th April.

We invite pupils to school on the following days:

Year 7	Wednesday, 24rd March Thursday, 25th March Friday 26th March
Year 8	Thursday, 25th March Friday 26th March
Year 9	Friday, 26th March

Online lessons will continue on those days where pupils are not in school but we will also plan some non-screen days. During the two weeks from the 15th of March onwards, years 11, and 13 will attend school full time and Year 10 and 12 will attend full time from the 22nd of March onwards. This will mean that the school will be providing education in three ways: lessons in school, online lessons as well lessons in the Care/ hwb Centre. As a result, we may need to adapt the daily provision that we have, until this point, been offering.

In order to ensure the health and safety of all, the procedures in school will be very similar to those seen before Christmas. In addition, the national guidelines note that masks should be worn in classrooms where it is not possible to ensure social distancing. In light of recent research that shows that the wearing of masks can reduce the spread of the virus, we strongly believe that wearing a mask in class is beneficial. We strongly encourage all pupils to wear a mask whenever possible in all areas of school, with the exception of outside. Wearing a mask is one of several ways of reducing the risk of spreading the Covid 19 virus along with social distancing, washing hands and good ventilation. Everyone will be expected to wear a mask on the bus, as before Christmas.

In order to improve ventilation, we have increased the number of windows that can open, and purchased CO2 monitors which are good indicators of air flow within the building. Hopefully we will also benefit from better and warmer weather

We are delighted to welcome pupils back to school, and we look forward to experiencing busy corridors again. We also realise that you may have concerns regarding the school uniform. Please don't worry, we appreciate the shops have been closed, children are growing, and we are approaching the last term of school. Of course, we want all pupils to continue to wear the school uniform, but it may not be perfect for the next few weeks.

School canteens will not re open until after the Easter holidays, but full service will resume on Monday 12th of April. All pupils will therefore need to bring a packed lunch to school, and direct payments will continue to be made to the families of those children who are eligible for free school meals. We can also confirm that the school buses will run as usual and once again remind you that masks must be worn on each journey.

YSGOL UWCHRADD BODEDERN

Bro Alaw, Bodedern, Ynys Môn, LL65 3SU
01407 741000
pennaeth@bodedern.ynysmon.sch.uk / swyddfa@bodedern.ynysmon.sch.uk

Pennaeth : Mr Paul G. S. Matthews-Jones

The Care hwb Centre for the children of key workers will continue. While welcoming pupils gradually back to school in accordance with government guidelines, the above information will give you added assurance that this will be done safely. Of course, the timetable for pupils return to school is different in various parts of the United Kingdom.

The whole staff looks forward greatly to welcoming the pupils back and to aiming for some sort of normality despite the restrictions that continue. Please feel free to contact us should you have any further concerns or queries.

Your sincerely

Paul G S Matthews-Jones
Head